# CAN NEWYDD,

YN GOSOD ALLAN

## Y MODD DYCHRYNLLYD Y LLADDODD

# MARY WILSON

*Ddau o'i Llys-blant,*

Ac yna a'u llosgodd yn ulw mewn Ffwrn o dân,

*Yn mis Mehefin,* 1829.

**Hi a gymerwyd i garchar, ond o eisiau tystion i dystiolaethu yn ei herbyn, hi a ryddhawyd yn y Frawd-lys; ond yn mhen y flwyddyn yn agos, a hi ar ei gwely angau, cyfaddefodd y weithred, a bu farw yn druenus, sef ar ddydd Llun, y 10fed o Fai, 1830, nes gorfu i bawb ei gadael a myned allan, gan mor ddychrynadwy yr oedd hi yn trengu Cymerodd le yn Bod-man, swydd Cernyw *( Cornwal )*.**

***Cenir ar y dôn a elwir "Bryniau yr Iwerddon."***

Gan THOMAS HARRIS, Trefdraeth.

CHWI Gymry glân a mwynaidd, drwy'r De' a'r
Gogledd dir,
Gwrandewch ar hyn o hanes a dystiwyd i ni'n wir;
Newyddion sydd er syndod bob diwrnod ini'n d'od,
I ein rhybuddio beunydd rhag cael annedwydd nôd.

'Roedd gŵr a gwraig yn Bod-man, o fewn i Corn-
wal fawr, (wawr:
Yn byw uwch ben eu digon, y ddau oedd wiwlon
'Nol bod am bedair blynedd mewn pur ymgeledd
gu,
Daeth angeu i roi ysgariad trwy fyn'd a'i bywyd hi.

Fe orfu iddi adael ei gŵr a dau o blant,
'Doedd modd perswadio'r angeu rhag dwyn ei
bywyd bant;

Wrth roddi yn y ddaear ei gydmar yno 'nghudd,
Ei fynwes oedd mewn galar, a'i galon fach yn brudd.

Yn mhen rhyw faint o amser priododd yr ail waith,
Trwy feddwl cael ail gysur nes d'od i ben y daith;
Ac hefyd cael ymgeledd i'w anwyl blant yn llon:—
Ond iddo'r ail briodas anhyfryd y daeth hon.

Y gŵr yn mis Mehefin a aeth i Blymouth dre',
Ac yno yr arosodd dros dridiau yn y lle;
'Nol gwneuthur ei negesau i'w artref aeth yn iach,
Gofynodd i'r wraig yn sydyn, P'le mae'r ddau blentyn bach?

A hithau a ddywedai na's gwyddai, Duw a'i gŵyr,
Oddi yma aethant allan ryw 'chydig cyn yr hwyr;
Am danynt bu'm yn chwilio, a'u ceisio yn mhob man;—
Mae arnaf aeth a dychryn rhag niweid dd'od i'w rhan.

Y gŵr pan glywodd hyny, yn glasu 'roedd mewn braw;
Daeth lluaws o'r cym'dogion i'w ceisio yma a thraw;
Dros wythnos buw'd yn chwilio'r afonydd a phob lle,
Mewn gobaith cael eu gweled yn rhyw-ddull îs y ne'

O'r diwedd rhoddwyd fynu i chwilio am danynt hwy,
Fe wnaethpwyd penderfyniad ynt gaffael marwol glwy'.
Eu tad oedd bron yn wallgof, ar golli ei sense i gyd,
Wrth feddwl na chai'u gweled hwy byth yn hyn o fyd.

X8C5217337

Yn fuan cri ddaeth allan, Mae'n rhaid, eu llys-fam
hwy
A'u rhoddodd i farwolaeth, 'doedd dim amheuaeth
mwy:
Fe'i cyrchwyd hi yn union o flaen ustusiaid, do,
Ond methwyd cael i'w herbyn mai euog oedd o'r
tro.

Modd bynag ca'dd ei gyru i garchar 'nawr ar goedd,
Nes delai dyddiau'r Sessiwn, i wel'd ai euog oedd;
Pan ddaeth y dydd oddiamgylch fe'i cyrchwyd i'r
Llys-dŷ,
Ond nid oedd un dystiolaeth i gael i'w herbyn hi.

Yn uchel yno gwaeddai, mai gwirion oedd ei gwawr,
Ai meddwl 'roe'nt gallasai hi wneud fath weithred
fawr
Ar blant oedd mor anwylaidd a hoffaidd ganddi o
hyd?
Ac felly fe'i rhyddhawyd ar g'oedd y dorf i gyd.

Yr oedd y gŵr mewn galar, yn wylo nos a dydd,
Wrth gofio ei blant anwyl ei galon oedd yn brudd;
Gafaelodd clefyd ynddo a'i cariodd tu a'r bedd;—
Mae gobaith ei fod heddyw yn nghwm'ni'i blant
mewn hedd.

Yn mhen y flwyddyn gyfan, a hyn yn nechreu Mai,
Daeth angau i gwrdd â Mari, i ddryllio 'i phabell
frau,
Ei holl gym'dogion galwodd a 'ffeiriad gwych y
plwyf,
A'r weithred hon datguddiodd, ni's gall'sai ei
chelu 'n hwy.

O,'r dwylaw aflan yma a wnaeth fath greulon waith.
Pan aeth fy ngŵr o gartref i Blymouth ar ei daith,

Ei anwyl fwyn ddau blentyn rhoes derfyn ar eu hoes,
I mi am waith mor greulawn trugaredd 'nawr nid oes.

Y ffwrn yn wir a dwymnais nes oedd yn eirias dân,
Eu tagu wnes mewn munud, gwnes ddwyn eu
bywyd glân.
N[illegible] eu [illegible] i'r fflamau tan heb gryd,
Nes oeddynt hwy yn fuan yn ulw mân i gyd.

Y mae eu gwaed yn ddyfal yn galw dïal du,
A'r fall yn wir a'm denodd yn poeni f'enaid i;
Fel arthes mae 'nghydwybod yn rhuo 'nawr yn wir,
Pa fodd y gwnaf ymddangos gerbron y Barnwr pur.

O! boenau mawr anrhaethol a welaf o fy mlaen,
Caf boeni heb ymwared dros byth yn uffern dân,
A hyn heb un ymgeledd, dan wg dialedd Duw,
Am i mi ladd heb arbed y plant amddifaid gwiw.

Fel hyn y bu hi farw, yn gwaeo 'r dydd a'r awr
Y cafodd hi ei geni erioed i'r ddaear lawr.
Fe orfu pawb ei gadael, a myned maes o'r tŷ
Mewn dychryn, wrth ei gweled dan ddwylaw
angau du.

'Nawr gwelwn fel mae satan, gwrth'nebwr dynol
ryw,
[illegible] hudo [illegible] trwy ffalsder dan wg a digter Duw;
Gochelwn ei holl lwybrau nes delo angau 'n hol,
Os rhodiwn ffordd yr Iesu cawn orphwys yn ei gol.

Yn rhybudd byddo 'r hanes i'r Cymru hardd o hyd;
Gwnawn deithio'r ffordd i [illegible] yn gyson oll i gyd,
Fel caffom yn y diwedd wahoddiad pur ein Pen,
Da, was da, buost ffyddlon, dos mewn i'r wledd.
Amen.

---

*Llanrwst: argraffwyd gan John Jones.*